**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

**Dyfarniadau cyllid grant 2022-2023**

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

## Trosolwg

Mae'r Fframwaith Comisiynu'n amlinellu blaenoriaethau ac egwyddorion allweddol gweithgareddau comisiynu. Mae hyn yn cynnwys cyfeiriad at ddyfarnu grantiau fel un o'r llwybrau cyflawni.

Mae'r Comisiynydd wedi sefydlu Bwrdd Cynghori ar Gomisiynu, a'i rôl yw gweithredu fel y corff adolygu mewn perthynas â dyfarnu arian grant a thendro am wasanaethau. Mae ei rôl yn cynnwys sicrhau y ceir elw ar fuddsoddiad a gwerthuso effaith y gwasanaeth/prosiect. Mae'r bwrdd yn canolbwyntio ar graffu ar weithgareddau a sicrhau bod darparwyr yn atebol.

Mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu (CHTh) nifer o ffrydiau incwm y gellir eu defnyddio i ariannu prosiectau ac adnoddau ychwanegol i gefnogi blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu. Mae gan rai o'r rhain ddibenion penodol. Caiff y rhain eu hamlinellu isod:

| Ffynhonnell incwm | Diben | Swm a fuddsoddwyd yn 2022-2023 |
|---|---|---|
| Cronfa'r Comisiynydd | Crëwyd y gronfa wrth gefn hon i ddarparu cronfa i'r Comisiynydd tymor 3 newydd i gefnogi mentrau i ategu'r Cynllun Heddlu a Throseddu newydd | £101,000 |
| Cronfa wrth gefn ar gyfer gwerthu eiddo sydd wedi'i ddarganfod | Mae'r gronfa hon yn ailddosbarthu arian a geir o werthu eiddo wedi'i ddarganfod ac fe'i defnyddir i gefnogi/rhoi i elusennau lleol. | £3,634 |
| Cronfa wrth gefn ar gyfer Cymhellion/y Ddeddf Enillion Troseddau | Daw'r gronfa wrth gefn hon o gronfeydd sydd wedi'u dyrannu i ardal Dyfed-Powys o ganlyniad i orchmynion atafaelu sy'n deillio o enillion troseddau. Yna, defnyddir y cronfeydd wrth gefn hyn i gefnogi gweithgareddau gweithredol sy'n helpu i ddwyn troseddwyr gerbron y llys. | £85,638 |
| Cronfa wrth gefn ar gyfer fforffediadau | Mae'r gronfa hon yn ailddosbarthu arian a atafaelir o dan adran 27 o'r Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau, ac a fydd, ar ôl ei fforffedu yn y llys, yn cael ei ddefnyddio i ariannu gweithrediadau sy'n targedu troseddau'n ymwneud a chyffuriau a chamddefnyddio cyffuriau | £0.00 |
| Cronfa wrth gefn ar gyfer y cynllun ailhyfforddi gyrwyr | Mae'r gronfa wrth gefn hon yn cael ei chadw'n benodol i gefnogi gweithgareddau mewn perthynas â mentrau diogelwch ffyrdd. Bydd cyfleoedd pellach yn cael eu harchwilio i sicrhau bod y cronfeydd wrth gefn hyn yn cael eu defnyddio yn y ffordd orau bosibl er lles cymunedau ardal Dyfed-Powys. | £264,998 |
| Cronfa wrth gefn ar gyfer ymyriadau cyffuriau | Bydd y gronfa wrth gefn hon yn cael ei defnyddio i gefnogi profion cyffuriau. | £33,250 |

# Cyllid a ddyfarnwyd

| | |
|---|---|
| **Prosiect** | Sefydliad Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe – Kicks Dyfed-Powys |
| **Ffynhonnell** | Cronfeydd wrth gefn y Comisiynydd |
| **Gwerth** | £100,000.00 |
| **Lleoliad** | Ledled ardal yr Heddlu (pob un o bedair sir Dyfed-Powys) |

Yn dilyn prosiect peilot llwyddiannus a gynhaliwyd gan Ymddiriedolaeth Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe yn Seaside ger Llanelli a Doc Penfro, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cysylltu â'r CHTh gyda syniad i ymestyn y prosiect ar draws pump o ardaloedd Heddlu Dyfed-Powys, gan ganolbwyntio ar ardaloedd o amddifadedd uchel.

I ddechrau, cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth nifer o sesiynau pêl-droed/sesiynau hyfforddi i blant yn y gymuned, gan dargedu grwpiau anodd eu cyrraedd a grwpiau sy'n byw mewn tlodi.

Byddai estyniad y prosiect yn ymgysylltu â phlant yng nghymunedau'r pum ardal ddynodedig, gan roi'r cyfle iddynt gael cyfleoedd hyfforddiant pêl-droed, addysg ac anogaeth, a hefyd cyfleoedd gwirfoddoli na fyddai wedi bod ar gael iddynt cyn hyn.

Cynigiodd y CHTh ei gefnogaeth lawn a chytunodd i ymestyn y prosiect. Bwriedir rhedeg y prosiect am gyfnod o dair blynedd o 2021, gyda chyllideb o £300k (£100k y flwyddyn).

| | |
|---|---|
| **Prosiect** | Profion cyffuriau wrth ymyl y ffordd |
| **Ffynhonnell** | Cronfeydd wrth gefn y Rhaglen Ymyrraeth Cyffuriau |
| **Gwerth** | £33,250.25 |
| **Lleoliad** | Ledled ardal yr Heddlu (pob un o bedair sir Dyfed-Powys) |

Mae Adran Plismona'r Ffyrdd wedi gweld cynnydd sylweddol mewn troseddau gyrru dan ddylanwad cyffuriau ers 2019 o ganlyniad i fesurau rhagweithiol 'stopio ac archwilio' gan swyddogion.

Gwneir y canfyddiad cychwynnol wrth ymyl y ffordd gan ddefnyddio dull sgrinio DrugWipe ac os ceir adwaith positif yna byddai angen cymryd sampl gwaed ar gyfer prawf tocsicoleg. Byddai hyn yn digwydd yn y ddalfa. Mae'r camau cadarnhaol hyn wedi cael effaith ariannol sylweddol oherwydd costau'r dull sgrinio DrugWipe a'r profion tocsicoleg dilynol.

Gwnaed cais gan yr Heddlu a chytunodd y CHTh i gyfrannu at y gost o brynu'r pecynnau profion Gyrru ar Gyffuriau.

| | |
|---|---|
| **Prosiect** | Cronfa Cyflawnwyr Cam-drin Domestig – arian cyfatebol |
| **Ffynhonnell** | Cronfeydd wrth gefn ar gyfer ailhyfforddi gyrwyr |
| **Gwerth** | £96,823.82 |
| **Lleoliad** | Ledled ardal yr Heddlu (pob un o bedair sir Dyfed-Powys) |

Cyflwynodd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu mewn partneriaeth â Chanolfan Argyfwng Teuluoedd Sir Drefaldwyn, Gwasanaethau Trais Domestig Calan , Gwasanaethau Cam-drin Domestig Threshold, Heddlu Dyfed-Powys a Seicoleg Fforensig y DU gais i Gronfa Cyflawnwyr y Swyddfa Gartref a llwyddwyd i gael £417,000 i gyflawni'r prosiect.

Mae'r prosiect yn galluogi darparu amrywiaeth o ymyriadau ar gyfer cyflawnwyr a chymorth cofleidiol i'w teuluoedd, a thrwy hynny mae'n anelu at leihau nifer yr achosion o gam-drin domestig a stelcian a'u heffaith.

Er mwyn i'r cais gael ei dderbyn, roedd gofyniad wedi'i gynnwys gan y Swyddfa Gartref i gael arian cyfatebol. Argymhellwyd bod y CHTh yn cymeradwyo defnyddio hyd at £112,000 o'r Cronfeydd wrth Gefn ar gyfer Ailhyfforddi Gyrwyr i alluogi'r prosiect hwn i gael ei gyflawni.
Cyflawnodd cyllid y Swyddfa Gartref y prosiect rhwng Awst 2021 a 31 Mawrth 2022. Defnyddiwyd y cyllid a ddarparwyd gan y CHTh yn y flwyddyn ariannol 2022-2023 i alluogi'r prosiect i barhau am gyfnod llawn o 12 mis.

Roedd gofyniad terfynol yr arian cyfatebol yn llai na'r hyn a ragwelwyd, fel y manylir uchod.

Mae trafodaethau'n parhau gan Fwrdd Strategol Rhanbarthol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i bennu cyllid ar gyfer dyfodol tymor hwy'r ymyriadau hyn.

| | |
|---|---|
| **Prosiect** | Cyflawnwyr Cam-drin Domestig – cyfraniad rhanbarthol |
| **Ffynhonnell** | Cronfeydd wrth gefn ar gyfer ailhyfforddi gyrwyr |
| **Gwerth** | £19,850.00 |
| **Lleoliad** | Ledled ardal yr Heddlu (pob un o bedair sir Dyfed-Powys) |

Cysylltodd bwrdd rhanbarthol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol â'r CHTh am gyfraniad tuag at y rhaglen ranbarthol i gyflawnwyr. Cyfrannodd y CHTh arian i'r bartneriaeth yn ystod 2021-2022 a gofynnwyd iddo barhau â'r buddsoddiad hwn yn 2022-2023.

Sicrhaodd y buddsoddiad ar y cyd ar draws y bartneriaeth yn 2021-2022 fod y rhanbarth wedi cyflawni ymyrraeth gyson, hygyrch ac o ansawdd uchel i gyflawnwyr a oedd yr un mor hygyrch ym mhob rhan o'r rhanbarth. Yn unol â gwaith y Bartneriaeth i wella'r trefniadau comisiynu ynghylch darparu gwasanaethau Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf maent wedi gweithio ar ddatblygu cymarebau ariannu rhanbarthol posibl, ar draws yr holl bartneriaid.

Mae partneriaid strategol allweddol i gyd wedi cyfrannu at ariannu'r prosiect a'r CHTh yntau'n cyfrannu 20% o'r gost, sy'n cyfateb i £19,850.

| | |
|---|---|
| **Prosiect** | Ffitrwydd i yrru |
| **Ffynhonnell** | Cronfeydd wrth gefn ar gyfer ailhyfforddi gyrwyr |
| **Gwerth** | £1,124.50 |
| **Lleoliad** | Ledled ardal yr Heddlu (pob un o bedair sir Dyfed-Powys) |

Yn ystod 2020, cysylltodd yr Heddlu a Gwasanaeth Asesu Symudedd a Gyrru Cymru â'r CHTh i drafod y posibilrwydd o ddarparu cymorth ariannol i'r sefydliad i barhau i gynnal eu cyrsiau Ffitrwydd i Yrru.

Mae'r Heddlu yn cyfeirio gyrwyr yn rheolaidd at Wasanaeth Asesu Symudedd a Gyrru Cymru ar gyfer asesiadau ac mae'r sefydliad yn ysgwyddo'r costau eu hunain. Cytunodd y CHTh i gynorthwyo'r sefydliad a gwnaed cyfraniad i'r sefydliad o'r cronfeydd wrth gefn ar gyfer ailhyfforddi gyrwyr.

Mae'r CHTh wedi cael cais am gyfraniad o £11,370.50 ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-2023 er mwyn parhau i asesu atgyfeiriadau Dyfed-Powys.

Cymeradwyodd y CHTh y cais am gyllid yn seiliedig ar lwyddiant cyfraniadau i'r cynllun hwn cyn hyn. Ceir yr anfoneb derfynol ym mis Ebrill 2023 ar gyfer gweddill y balans, a bydd yr arian yn cael ei ddyrannu o gyllideb 2023-2024.

| | |
|---|---|
| **Prosiect** | Cwmni Buddiannau Cymunedol Physical Empowerment CIC |
| **Ffynhonnell** | Cronfeydd wrth gefn ar gyfer ailhyfforddi gyrwyr |
| **Gwerth** | £10,000.00 |
| **Lleoliad** | Ledled ardal yr Heddlu (pob un o bedair sir Dyfed-Powys) |

Ar ôl cyfarfod llwyddiannus â chwmni buddiannau cymunedol Physical Empowerment CIC, sy'n darparu cyrsiau hunanamddiffyn a chodi ymwybyddiaeth i ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin domestig, cysylltodd y cwmni â'r CHTh gyda chais am gyllid i ddatblygu prosiect peilot yn Nyfed-Powys.

Byddai'r peilot yn cynnwys cwrs hunanamddiffyn 10 wythnos ar gyfer goroeswyr a byddai cyrsiau'n cynnwys pynciau fel bod yn berchen ar eich gofod personol, bod yn ymwybodol, dweud Na, ymddygiad pendant a siarad yn gadarnhaol â chi'ch hun.

Roedd y CHTh yn awyddus i gefnogi dull gweithredu a system gefnogi mor arloesol i oroeswyr cam-drin domestig, a chytunodd i roi £12,000 i ariannu'r prosiect peilot.

Bydd taliad terfynol o £2,000 yn cael ei ddyrannu allan o gyllideb 2023-2024.

| | |
|---|---|
| **Prosiect** | Fan OK Ffederasiwn yr Heddlu |
| **Ffynhonnell** | Cronfeydd wrth gefn ar gyfer ailhyfforddi gyrwyr |
| **Gwerth** | £26,000.00 |
| **Lleoliad** | Ledled ardal yr Heddlu (pob un o bedair sir Dyfed-Powys) |

Cysylltodd Ffederasiwn yr Heddlu â'r CHTh ynghylch cyfraniad ariannol tuag at brynu cerbyd penodol o'r enw fan Oscar Kilo (OK) a fydd yn cael ei ddefnyddio o amgylch ardal yr Heddlu, yn benodol ar gyfer iechyd, llesiant a lles swyddogion a staff yr Heddlu.

Byddai'r cyfraniad yn 50% o gyfanswm y costau ac yn cyfrannu at brynu ac adnewyddu'r cerbyd. Bydd y cerbyd yn parhau i fod yn rhan o'r fflyd a bydd yn cael ei reoli gan uned cynnal a chadw cerbydau'r Heddlu.

Cytunodd y CHTh i'r cynnig hwn a chyfrannodd £26,000 i'r prosiect hwn.

| | |
|---|---|
| **Prosiect** | Cyfraniad Ymgyrch Darwen |
| **Ffynhonnell** | Cronfeydd wrth gefn ar gyfer ailhyfforddi gyrwyr |
| **Gwerth** | £100,000.00 |
| **Lleoliad** | Ledled ardal yr Heddlu (pob un o bedair sir Dyfed-Powys) |

Mae Ymgyrch Darwen yn ymgyrch Cymru gyfan sydd â'r nod o godi ymwybyddiaeth o ddiogelwch beiciau modur ac o leihau anafiadau ar y ffyrdd.

Bob blwyddyn, mae Heddlu Dyfed-Powys yn cynllunio ac yn cynnal sawl diwrnod Ymgyrch Darwen, sy'n arwain at blismona mwy gweladwy ar hyd rhai o'r systemau ffyrdd lleol mwyaf peryglus, gyda'r nod o leihau goryrru a damweiniau traffig ffyrdd.

Mae'r CHTh wedi ymrwymo i ariannu hyd at uchafswm o £100,000 – bydd y swm gwirioneddol terfynol yn dibynnu ar ofynion gweithgaredd gweithredol yn ystod y flwyddyn.

| | |
|---|---|
| **Prosiect** | Ymchwilydd Ariannol |
| **Ffynhonnell** | Y Ddeddf Enillion Troseddau |
| **Gwerth** | £41,861.00 |
| **Lleoliad** | Ledled ardal yr Heddlu (pob un o bedair sir Dyfed-Powys) |

| | |
|---|---|
| **Prosiect** | Swyddog Brysbennu Twyll |
| **Ffynhonnell** | Y Ddeddf Enillion Troseddau |
| **Gwerth** | £21,553.00 |
| **Lleoliad** | Ledled ardal yr Heddlu (pob un o bedair sir Dyfed-Powys) |

| | |
|---|---|
| **Prosiect** | Swyddog Diogelu 2022-2023 |
| **Ffynhonnell** | Y Ddeddf Enillion Troseddau |
| **Gwerth** | £22,224.00 |
| **Lleoliad** | Ledled ardal yr Heddlu (pob un o bedair sir Dyfed-Powys) |

Mae'r CHTh eisoes wedi cyfrannu at gostau cyflog Ymchwilydd Ariannol, Swyddog Diogelu a Swyddog Brysbennu Twyll, i gyd wedi'u lleoli o fewn y Tîm Troseddau Ariannol yn Heddlu Dyfed-Powys.

Mae'r cyfraniadau hyn wedi bod yn hynod lwyddiannus, ac mae'r tîm wedi gallu canolbwyntio'n benodol ar ddioddefwyr troseddau economaidd yn yr adran, gan ddarparu cyngor a chymorth arbenigol.

Cytunodd y CHTh i barhau â'r cyfraniadau yn 2022-2023 gan gynnig y canlynol:

Ymchwilydd Ariannol – ariannu 100%
Swyddog Diogelu – ariannu 50%
Swyddog Brysbennu Twyll – ariannu 50%

Caiff cynnydd o bob un o'r rolau ei fonitro drwy gyfarfodydd chwarterol gyda'r Adran Troseddau Economaidd, drwy adolygu ystadegau ynghylch dioddefwyr sy'n cael eu cefnogi, ac incwm a geir drwy'r Ddeddf Enillion Troseddau, ac yna bydd yr wybodaeth hon yn cael ei bwydo'n ôl i'r Bwrdd Cynghori ar Gomisiynu ar gyfer craffu.

| | |
|---|---|
| **Prosiect** | Llyfrau Llafar |
| **Ffynhonnell** | Gwerthu eiddo sydd wedi'i ddarganfod |
| **Gwerth** | £500 |
| **Lleoliad** | Ledled ardal yr Heddlu (pob un o bedair sir Dyfed-Powys) |

Mae Llyfrau Llafar Cymru yn wasanaeth sy'n cael ei redeg gan wirfoddolwyr sy'n darparu gwasanaeth hanfodol i bobl ddall, rhannol ddall a'r rhai sy'n cael anawsterau darllen.

Mae'r gwasanaeth, a gefnogir gan Gymdeithasau i'r Deillion, yn cynnwys llyfrau, papurau newydd, ac erthyglau llafar ar gyfer pobl ddall, pobl rhannol ddall a'r rhai sy'n cael trafferth darllen.
Sefydlwyd y gwasanaeth yn gyntaf ym 1979.

Mae'r gwasanaeth yn cefnogi ethos y Cynllun Heddlu a Throseddu wrth ymgysylltu â thrawstoriad o'n cymunedau lleol.

Penderfynodd y CHTh roi rhodd elusennol o £500 i'r gwasanaeth.

| | |
|---|---|
| **Prosiect** | Prosiect 23 Eisteddfod yr Urdd 2023 |
| **Ffynhonnell** | Cronfeydd wrth gefn y Comisiynydd |
| **Gwerth** | £1,000.00 |
| **Lleoliad** | Sir Gaerfyrddin |

Mae Prosiect 23 yn brosiect sydd â'r nod o roi'r cyfle i bob plentyn a pherson ifanc i gymryd rhan yn Eisteddfod yr Urdd, sy'n dod i Sir Gaerfyrddin yn 2023. Ynghyd â hyn, datblygu eu sgiliau creu drwy themâu megis hanes lleol, chwedlau a pherthyn.

Mae'r prosiect yn awyddus iawn i weithio gyda Thîm Cyfiawnder Ieuenctid Sir Gaerfyrddin sy'n gweithio gyda phlant rhwng 8 a 17 oed sydd mewn perygl o droseddu neu sydd wedi cyflawni troseddau.

Datblygwyd prosiect i ymarferwr creadigol weithio'n agos â phobl ifanc a'u dysgu i ddatblygu eu gwaith celf.
Cysylltodd y prosiect â'r Comisiynydd yn gofyn am gefnogaeth i greu'r gwaith a chynnig cyfleoedd unigryw i bobl ifanc o fewn y rhanbarth.

Mae'r gwasanaeth yn cefnogi ethos y Cynllun Heddlu a Throseddu wrth ymgysylltu â thrawstoriad o'n cymunedau lleol ac atal niwed.

Cytunodd y CHTh i roi rhodd o £1,000 i gefnogi'r gweithgaredd hwn.

| | |
|---|---|
| **Prosiect** | Rheilffordd Gwili |
| **Ffynhonnell** | Gwerthu eiddo sydd wedi'i ddarganfod |
| **Gwerth** | £1,000 |
| **Lleoliad** | Sir Gaerfyrddin |

Ymwelodd y CHTh â Rheilffordd Stêm Gwili ym mis Mawrth 2020 i ddeall yn llawn y gefnogaeth a ddarparodd i ymchwiliad yr Heddlu o'r enw Ymgyrch Carlston.

Roedd Ymgyrch Carlston yn ymchwiliad hynod gymhleth a sensitif i'r Heddlu; roedd y gefnogaeth a ddarparwyd gan y rheilffordd yn rhan annatod o'r gwaith a wnaed a chafodd ei gwerthfawrogi'n fawr. Mae'r CHTh a'r Prif Gwnstabl wedi mynegi eu diolch diffuant am eu cefnogaeth.

Ymddiheurwyd am yr oedi rhwng yr ymweliad yn 2020 a chysylltu yn 2023. Methodd yr ohebiaeth wreiddiol â chyrraedd Rheilffordd Stêm Gwili ac mae archwiliad diweddar gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu wedi datgelu na chafodd y rhodd a gynigiwyd yn 2020 ei phrosesu.

Mae'r CHTh wedi gofyn i'w swyddfa roi rhodd elusennol o £1,000 i Reilffordd Stêm Gwili o'r 'Gronfa Gwerthu Eiddo sydd wedi'i Ddarganfod' fel arwydd o ddiolch y CHTh.

| | |
|---|---|
| **Prosiect** | Cludiant ar gyfer gweithgareddau plant |
| **Ffynhonnell** | Gwerthu eiddo sydd wedi'i ddarganfod |
| **Gwerth** | £266.40 |
| **Lleoliad** | Sir Gaerfyrddin |

Yn dilyn sgwrs gyda chynghorydd lleol, cysylltwyd â'r Comisiynydd i helpu i ariannu cludiant i'r plant i ganolfan Llandysul Paddlers, lle cynhelir gweithgareddau ar 9 ac 16 Awst 2022.

Mae'r gwasanaeth yn cefnogi ethos y Cynllun Heddlu a Throseddu wrth ymgysylltu â thrawstoriad o'n cymunedau lleol.

Penderfynodd y CHTh roi rhodd elusennol o £266.50 i Fforwm Llwynhendy/Pemberton.

| | |
|---|---|
| **Prosiect** | Digwyddiad Pride Sir Benfro |
| **Ffynhonnell** | Cronfeydd wrth gefn ar gyfer ailhyfforddi gyrwyr |
| **Gwerth** | £1,200.00 |
| **Lleoliad** | Sir Benfro |

Cafodd y CHTh gais am arian i gefnogi digwyddiad Pride Sir Benfro. Roedd y cais llawn ar gyfer y digwyddiad cyfan a gwaith paratoi i'r dyfodol, gan gynnwys cyflwyno'r digwyddiad ei hun.

Cytunodd y CHTh i ariannu cyfran o'r cais gwreiddiol, wedi'i neilltuo ar gyfer yr elfen sy'n cyflawni ethos y Cynllun Heddlu a Throseddu. Cytunwyd ar gyfraniad o £1,200 i ddatblygu gwefan i gefnogi rhwydwaith ar-lein ar gyfer y gymuned LHDTC+.

Mae'r gwasanaeth yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Cynllun Heddlu a Throseddu mewn perthynas ag ymgysylltu â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a sicrhau cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y modd yr ydym yn cyflenwi ein gwasanaeth.

Cymeradwyodd y CHTh y cais am arian ar yr amod bod y wefan yn darparu dolen i borth Heddlu Dyfed-Powys ar gyfer troseddau casineb.

| | |
|---|---|
| **Prosiect** | Yr Hive |
| **Ffynhonnell** | Cronfeydd wrth gefn ar gyfer ailhyfforddi gyrwyr |
| **Gwerth** | £10,000.00 |
| **Lleoliad** | Sir Benfro |

Mae'r CHTh wedi cael cais am arian i gefnogi Prosiect Ieuenctid yr Hive yn ardal Garth, Hwlffordd i roi Llys Cruyff ar waith. Bydd hyn yn cynnig prosiect chwaraeon a gweithgareddau aml-swyddogaeth gan ddarparu man diogel i'r gymuned hyfforddi, chwarae, datblygu a gwella ei iechyd a llesiant emosiynol.

Mae teuluoedd sy'n byw yn yr ardal yn profi lefelau uchel o dlodi mewn gwaith ac mae anfantais ymhlith plant yn gyffredin. Mae hyn yn golygu nad yw teuluoedd yn gallu cael mynediad at gyfleoedd chwaraeon, na chymryd rhan ynddynt na chefnogi eu plant i gymryd rhan ynddynt.

Mae'r cais wedi sicrhau cyllid gan nifer o sefydliadau eraill gan gynnwys Street Games Cymru, Chwaraeon Cymru a Sefydliad Cruyff. Mae'r prosiect wrth wraidd y gymuned a bydd yn helpu i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol, gwella hyder y cyhoedd a lleihau niwed yn unol â blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu.

Cytunodd y CHTh i'r cais ac mae wedi cyfrannu £10,000 at y cais am gyllid.

| | |
|---|---|
| **Prosiect** | Bocsio INTACT |
| **Ffynhonnell** | Gwerthu eiddo sydd wedi'i ddarganfod |
| **Gwerth** | £990 |
| **Lleoliad** | Sir Benfro |

Fel rhan o raglen lwyddiannus INTACT, mae Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu ym Mhenfro a Doc Penfro wedi gweithio gyda chlwb bocsio lleol i gynnal rhaglen ar gyfer pobl ifanc gyda'r nod o ymgysylltu ac atal niwed ac ymddygiad troseddol/gwrthgymdeithasol yn y dyfodol.

Cysylltwyd â'r CHTh i ddarparu cyllid ar gyfer parhau â'r ymyrraeth hon. Cytunodd y CHTh i ddarparu cyllid o £990.

| | |
|---|---|
| **Prosiect** | Pawennau ar Batrôl |
| **Ffynhonnell** | Cronfa wrth gefn ar gyfer gwerthu eiddo sydd wedi'i ddarganfod |
| **Gwerth** | £877.50 |
| **Lleoliad** | Sir Benfro |

Mae Heddlu Dyfed-Powys a Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gweithio gyda'i gilydd i lansio 'cynllun Pawennau ar Batrôl' o fewn ardal Dyfed-Powys.

Y nod yw manteisio ar bobl sy'n mynd â'u cŵn am dro i helpu i frwydro yn erbyn trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol drwy adrodd a chasglu tystiolaeth tra'u bod allan am dro gyda'u hanifeiliaid anwes. Bydd aelodau'n cael pecyn croeso a chylchlythyrau bob deufis gyda gwybodaeth a chyngor atal troseddau. Bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio i helpu i dalu am becynnau a baneri croeso i hyrwyddo'r gwasanaeth o fewn y gymuned ac mewn digwyddiadau lleol. Bydd y faner Pawennau ar Batrôl yn cael ei hyrwyddo gan y gwasanaeth tân / heddlu / warden cŵn / cyngor cymuned mewn digwyddiadau lleol i annog aelodaeth ac ymgysylltiad.

Mae'r gwasanaeth yn cefnogi ethos y Cynllun Heddlu a Throseddu wrth ymgysylltu â thrawstoriad o'n cymunedau lleol.

Mae'r CHTh wedi darparu rhodd elusennol o £877.50 i'r gwasanaeth i helpu i sefydlu'r cynllun Pawennau ar Batrôl newydd.